**Dawn Bowden AS/MS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**
**Minister for Children and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-DB-10629-24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

25 Hydref 2024

Annwyl Mike,

Diolch ichi unwaith eto am ystyried Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu hystyriaeth fanwl o'r Bil, ac am eu hargymhellion.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i'r argymhellion isod.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth sydd ynghlwm yn helpu i lywio eich gwaith craffu pellach wrth i'r Bil fynd rhagddo drwy Gyfnod 2. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau'r Pwyllgor ar fanylion y ddeddfwriaeth yn y dyfodol agos.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Dawn Bowden AS/MS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol
Minister for Children and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru
Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

**Ymatebion i argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Casgliad 1:**
**Fel mater o egwyddor, ni ddylid cyflwyno Bil i'r Senedd hyd nes y bydd pob asesiad effaith perthnasol wedi'i gwblhau yn llawn, fel y gellir cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol yn y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol i gyd-fynd â phob Bil yn unol â Rheol Sefydlog 26.6.**

Roedd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd ochr yn ochr â'r Bil pan gafodd ei gyflwyno yn cynnwys asesiad o'r effaith. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio darparu rhagor o wybodaeth i Aelodau o'r Senedd yn ystod y broses graffu, pan fydd cais am hynny.

**Casgliad 2:**
**Fel mater o arfer da, dylai Memorandwm Esboniadol ddarparu gwybodaeth glir am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith bosibl Bil ar hawliau dynol ac, yn unol â hynny, sut y mae'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.**

Mae Gweinidogion yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol i Femorandwm Esboniadol ddarparu gwybodaeth glir am asesiad Llywodraeth Cymru o gydnawsedd Bil â hawliau'r Confensiwn, ac mae pob Memorandwm Esboniadol wedi cynnwys gwybodaeth o'r fath. Mae'r darpariaethau mewn Bil bob amser yn destun asesiad trylwyr o gymhwysedd deddfwriaethol, gan gynnwys hawliau'r Confensiwn.

**Casgliad 3:**
**Mae gennym bryderon bod y Bil wedi'i gyflwyno'n rhy gynnar a chyn i'r holl waith paratoi angenrheidiol gael ei gwblhau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i, ymgynghori ar fersiwn ddrafft o'r Bil a pharatoi asesiadau effaith a'r Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.**

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, roedd y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd ochr yn ochr â'r Bil pan gafodd ei gyflwyno yn cynnwys asesiad o'r effaith. Er mwyn helpu'r Senedd i ystyried y Bil, rydym yn ymdrechu i gyhoeddi fersiynau llawn o'r dogfennau cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r Bil. Ymgynghorodd y llywodraeth yn helaeth ar y cynigion hyn yn 2022. Mae'r rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil Drafft yn cael eu darparu ym mharagraff 4.10 o'r Memorandwm Esboniadol.

**Casgliad 4:**
**Fel egwyddor gyffredinol, credwn y dylai deddfwriaeth ddiffinio'n glir y termau y mae'n eu defnyddio, yn hytrach na'i gwneud yn ofynnol i'r darllenydd arfer rhywfaint o ddehongli, waeth pa mor syml yw'r dehongliad ym marn y Gweinidog dan sylw.**

**Casgliad 5:**

**Fel mater o egwyddor, os gellir gosod gwybodaeth ar wyneb y Bil, dyna lle y dylid ei gosod, a hynny am resymau tryloywder, sicrwydd ac arfer deddfwriaethol da.**

Rydym wedi ystyried casgliadau 4 a 5, ac wedi ymateb iddynt, gyda'i gilydd.

Fel y nodwyd gennym yn *Drafftio Deddfau i Gymru: Canllaw*, "Rhaid i ddeddfwriaeth fod yn effeithiol, ond dylai fod mor glir â phosibl hefyd." Rydym bob amser yn annog sylwadau ar ein dull o ddrafftio deddfwriaeth a byddwn yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1:**
**Dylai'r Gweinidog ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymateb i'r Pwyllgorau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, ond nid yw bob amser yn ymarferol i Weinidogion Cymru wneud hyn cyn y ddadl Cyfnod 1.

**Argymhelliad 2:**
**Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Senedd am drafodaethau Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU ynghylch y cydsyniad gan Weinidog y Goron sy'n dal i fod heb ei dderbyn ac sy'n ofynnol ar gyfer paragraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Rwy'n falch o gadarnhau wrth y Pwyllgor a'r Senedd fod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi ysgrifennu ataf i roi cydsyniad Gweinidog y Goron i'r darpariaethau ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i'r Bil.

**Argymhelliad 3:**
**Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw wedi cael trafodaethau gyda'r Cwnsler Cyffredinol a chabinet Llywodraeth Cymru ynghylch y flaenoriaeth y dylid ei rhoi i gydgrynhoi'r gyfraith ar reoleiddio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru.**

**Argymhelliad 4:**
**Dylai'r Gweinidog ymrwymo i asesu a chwmpasu cydgrynhoi'r gyfraith ar reoleiddio a darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd yng Nghymru, ac adrodd i'r Senedd ar y gwaith hwn o fewn 12 mis i basio'r Bil.**

Rwyf wedi ystyried argymhellion 3 a 4, ac wedi ymateb iddynt, gyda'i gilydd.

Rwy'n derbyn argymhelliad 3, ac rwy'n gwrthod argymhelliad 4.

Mae blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru yn ystod tymor y Senedd hon wedi'u nodi yn ein rhaglen Dyfodol Cyfraith Cymru (a ddiwygiwyd ym mis Ionawr 2024). Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn gosod yr adroddiad blynyddol nesaf ar gynnydd yn erbyn y rhaglen honno gerbron y Senedd maes o law. Serch hynny, bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod y gwaith i gydgrynhoi a chodeiddio'r amgylchedd hanesyddol wedi'i gwblhau, bod yr ail Fil yn y rhaglen newydd gael ei gyflwyno ar 21 Hydref, ac y bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen â'r gwaith i gydgrynhoi'r gyfraith cynllunio yng Nghymru y flwyddyn nesaf.

Mae ymrwymiad parhaus y Pwyllgor i hygyrchedd cyfraith Cymru a'i gefnogaeth i gydgrynhoi yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglen bresennol ar hygyrchedd y gyfraith yn cynnwys cynigion ar gyfer tymor y Senedd hon i gydgrynhoi'r gyfraith ar ofal iechyd neu wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru, felly ni allaf dderbyn argymhelliad 4 ar hyn o bryd. Serch hynny, bydd y canfyddiadau yn adroddiad y Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth i gynigion ar gyfer prosiectau cydgrynhoi yn y dyfodol gael eu datblygu ac rwyf wedi rhannu barn y Pwyllgor ar y mater hwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol.

**Argymhelliad 5:**
**Dylai’r Gweinidog ddiwygio’r Memorandwm Esboniadol (gan gynnwys y Nodiadau Esboniadol) erbyn dechrau trafodion Cyfnod 3 i sicrhau ei fod yn adlewyrchu bwriad y Bil i gyfyngu ar wneud elw yn hytrach na dileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Bwriad y darpariaethau yn y Bil yw atal elw rhag cael ei dynnu o ddarpariaeth gwasanaeth plant o dan gyfyngiad. Mae unrhyw warged masnachu neu elw yn cael ei gadw yn y sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth, a gellir ei ailfuddsoddi. Esbonnir hyn yn glir yn y Memorandwm Esboniadol a chredwn hefyd fod rhanddeiliaid yn deall mai dyma'r ffordd yr ydym yn ceisio dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.

**Argymhelliad 6:**
**Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i’r Bil i gynnwys y dyddiad y bydd y trefniadau trosiannol sydd i’w cyflwyno o dan Ran 1 o’r Bil yn dod i ben, ac i sicrhau bod modd diwygio’r dyddiad hwnnw drwy reoliadau yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol drafft.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi dewis yr opsiwn o gynnwys dyddiad dod i ben ar gyfer y cyfnod trosiannol, y gellid ei ymestyn drwy is-ddeddfwriaeth, ar wyneb y Bil. Byddai'r dull hwnnw'n golygu y gallai plant sydd wedi setlo mewn lleoliadau gyda darparwyr er elw fod yn ymwybodol bod dyddiad yn agosáu lle daw eu lleoliad i ben yn awtomatig, oni bai bod y dyddiad wedi'i ymestyn drwy is-ddeddfwriaeth. Gallai'r dyddiad dod i ben fod yn destun estyniadau lluosog er mwyn osgoi tarfu ar blant, ond gallai hyn, ynddo'i hun, beri trallod i blant a allai fod yn ymwybodol bod terfynau amser yn agosáu ac wedyn yn cael eu hymestyn.

Yn hytrach, bydd y pŵer sydd eisoes yn y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu diwedd y cyfnod trosiannol ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad mewn modd sy'n sensitif i anghenion plant sy'n dal i fod mewn lleoliadau o'r fath, a bydd yn golygu y gellir osgoi neu leihau i'r eithaf y tarfu ar leoliadau i blant a darparwyr gwasanaethau.

**Argymhelliad 7:**
**Pe bai'r Bil yn derbyn Cydsyniad Brenhinol, dylai'r Gweinidog sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r holl randdeiliaid am y trefniadau trosiannol a fydd yn berthnasol o dan Ran 1 o'r Bil ar ffurf a fydd yn gwneud y trefniadau'n hawdd eu deall.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel rhan o'n cynllun cyfathrebu ar gyfer y rhaglen dileu elw, byddwn yn darparu gwybodaeth i randdeiliaid am y trefniadau trosiannol.

**Argymhelliad 8:**
**Dylai'r Gweinidog esbonio'n glir sut y byddai dod â'r trefniadau trosiannol i ben fesul cam o dan Ran 1 o'r Bil yn gweithio yn ymarferol, gan gynnwys sut yr effeithir ar hawliau plant os bydd rhaid iddynt symud lleoliad.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Fel rhan o'n cynllun cyfathrebu ar gyfer y rhaglen dileu elw, byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd y trefniadau trosiannol yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys sut y gallant effeithio ar blant. Rydym yn derbyn bod rhywfaint o gymhlethdod yn perthyn i'r dull hwn ac efallai y bydd angen inni ddod yn ôl ato o bryd i'w gilydd i dawelu meddyliau ac i roi eglurhad i'r rhai yr effeithir arnynt. Union nod y cyfnod trosiannol hyblyg yw osgoi'r angen i blant orfod symud lleoliadau o ganlyniad i statws y darparwr gofal maeth neu gartref plant. Mae hyn yn agor y drws i ddod â'r cyfnod trosiannol i ben mewn ffordd sy'n osgoi unrhyw ymyrraeth â hawliau plant a achosir drwy ddod â lleoliad i ben.

**Argymhelliad 9:**
**Dylai'r Gweinidog esbonio'n glir:**
- **pam ei bod yn briodol o bosibl trin awdurdodau lleol yn unigol ac felly'n wahanol mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, ond nid mewn perthynas â Rhan 2;**
- **goblygiadau ymagwedd o'r fath i iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i ddarparu esboniad o'r dull a gymerwyd mewn perthynas â'r ddau bolisi hyn.

Yn Rhan 1, Pennod 1 o'r Bil, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru, fel y bydd gofal preswyl, llety diogel a gofal maeth i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn y dyfodol yn cael eu darparu gan y sector cyhoeddus, neu gan sefydliadau elusennol neu nid-er-elw.

Mae rhai ardaloedd o Gymru yn debygol o gyrraedd pwynt lle mae pob un o'u darpariaethau perthnasol yn ddielw cyn ardaloedd eraill. Mae'n briodol felly y gall pwerau yn y Bil alluogi Gweinidogion Cymru i ddod â threfniadau trosiannol i ben ar gyfer yr ardaloedd hynny o Gymru sydd wedi dileu elw preifat, fel na fydd y cynnydd hwn yn cael ei ddad-wneud.

Mae Rhan 2 o'r Bil yn cynnwys pwerau i alluogi taliadau uniongyrchol ym maes gofal iechyd. Cafodd taliadau uniongyrchol eu treialu mewn rhai ardaloedd o Loegr, sy'n golygu nad oes angen inni wneud hyn yng Nghymru, gan y gallwn ddysgu o'u profiad o weithredu yn Lloegr. Y bwriad felly yw y bydd rheoliadau i alluogi taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus yn gymwys ledled Cymru ac y byddant yn cael eu gweithredu ledled Cymru gyfan dros yr un cyfnod.

**Argymhelliad 10:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil fel ei fod yn glir wrth gyfrifo nifer y diwrnodau at ddiben adran newydd 2A(2) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 2(b) o'r Bil) bod rhaid i'r cyfnod o 12 mis fod yn ddi-dor.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i roi ystyriaeth bellach i eiriad adran newydd 2A(2) o Ddeddf 2016 (i'w mewnosod gan adran 2(b) o'r Bil) sy'n debygol o wneud y gwelliant arfaethedig hwn yn ddiangen.

**Argymhelliad 11:**
**Dylai'r Gweinidog egluro pam y bydd y term "plant sy'n derbyn gofal" yn cael ei gyflwyno i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan y Bil pan na ddefnyddir y term yn narpariaethau gweithredol y Ddeddf wreiddiol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Defnyddir y term "plant sy'n derbyn gofal" ("looked after children") yn y croesbennawd i Ran 6 o Ddeddf 2014 ac mewn sawl pennawd adran. Yn y testun Saesneg, byddai'n amlwg i'r darllenydd fod yr ymadrodd "looked after" yn golygu'r un peth p'un a yw'n cael ei osod o flaen y geiriau "child", neu "children", neu ar eu hôl.

**Argymhelliad 12:**
**Os bydd y Gweinidog yn penderfynu parhau i ddefnyddio'r term "plant sy'n derbyn gofal", dylai'r Gweinidog gyflwyno diwygiad i'r Bil i egluro ei ystyr, gan gynnwys, os oes angen, drwy ddiffinio'r term ym mharagraff newydd 1(3B) o Atodlen 1 i'r Bil (fel y'i mewnosodwyd gan adran 2(c) o'r Bil).**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i egluro ystyr y term "plant sy'n derbyn gofal" yn y diwygiad a fewnosodir yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

**Argymhelliad 13:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gynnwys diffiniad o 'fudd cyhoeddus' yn adran newydd 6A o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (i'w mewnosod gan adran 3(3) o'r Bil).**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Ni fyddai'r pŵer i ragnodi nwyddau cyhoeddus eraill a allai ganiatáu i sefydliad fodloni'r amod hwn, er mwyn darparu gwasanaeth plant o dan gyfyngiad, ond yn cael ei ddefnyddio i bennu'r hyn sy'n lles cyhoeddus derbyniol ychwanegol, yn ychwanegol at les plant.

Byddai'r amod a'r gofynion eraill yn dal i fod yn gymwys i'r darparwyr hyn.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod y gofyniad hwn yn eithriadol o eang na bod angen ei ddiffinio ymhellach. Er mwyn cymharu, yn y diffiniad o gymdeithas budd cymunedol yn adran 2(2) o Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, y prawf ynghylch dibenion sefydliad yw bod busnes y gymdeithas yn cael ei gynnal, neu y bwriedir iddo gael ei gynnal, er budd y gymuned. Mae'r prawf buddiant cymunedol ar gyfer cwmni buddiant cymunedol yr un mor eang ac fe'i diffinnir drwy gyfeirio at yr hyn y byddai person rhesymol yn ei ystyried yn weithgareddau sy'n cael eu cynnal er budd y gymuned neu ran o'r gymuned.

**Argymhelliad 14:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddefnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran newydd 6A(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (i'w fewnosodwyd gan adran 3(3) o'r Bil).**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Er nad yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod gweithdrefn uwchgadarnhaol yn briodol o dan yr amgylchiadau hyn, mae'n barod i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

**Argymhelliad 15:**
**Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i'r Bil i egluro sut y pennir amcanion neu ddibenion, a chan bwy, o dan adran newydd 6A(3) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (i'w mewnosod gan adran 3(3) o'r Bil).**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n hapus i roi eglurder ynghylch sut y dylid pennu amcanion a dibenion, a chan bwy. Y rheoleiddiwr, hynny yw Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n cyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru, fydd yn penderfynu a fydd amcanion neu ddibenion darparwr yn cydymffurfio â rheoliad 6A(3). Bydd amcanion/dibenion pob darparwr perthnasol wedi'u nodi yn ei ddogfennau llywodraethu a bydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru rywfaint o ddisgresiwn wrth benderfynu a yw'r rhain yn ymwneud yn bennaf â'r

dibenion a dderbynnir ai peidio. Rwyf o'r farn bod gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw yn dileu'r angen am welliant esboniadol.

**Argymhelliad 16:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 3 o'r Bil i ddileu'r diffiniad o 'gwmni a chanddo gyfalaf cyfrannau' sydd i'w fewnosod yn adran newydd 6B(6)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a dylid rhoi diffiniad priodol yn ei le o ran yr ymadrodd 'heb gyfalaf cyfrannau'.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwaith o ddrafftio'r ddarpariaeth berthnasol gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r pwynt a godwyd gan y Pwyllgor.

**Argymhelliad 17:**
**Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant neu welliannau i sicrhau ei bod yn glir beth mae 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant' yn ei olygu ym mhob man y caiff ei ddefnyddio yn y Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Rwy'n hapus i ymrwymo i ystyried y ffordd orau o osgoi dryswch neu ddiffyg eglurder ynghylch y bwriadau y tu ôl i'r defnydd o "yn gyfan gwbl neu'n bennaf i blant".

**Argymhelliad 18:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddileu'r pŵer i wneud rheoliadau o baragraff 2(4)(b) o Atodlen newydd 1A (i'w mewnosod gan adran 4 o'r Bil).**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddileu'r pŵer i wneud rheoliadau.

**Argymhelliad 19:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 6 o'r Bil i sicrhau bod y gwaith o ddrafftio adrannau newydd 9B(2)(e) a 9B(3)(d) yn cyd-fynd â chasgliad 4 o'n hadroddiad.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Fel y dywedais yn fy llythyr ar 9 Gorffennaf, rydym yn fodlon nad yw'r gwaith drafftio cyfredol yn creu unrhyw anhawster nac amwysedd wrth ddehongli.

**Argymhelliad 20:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil i gynnwys yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol gan ddarparwr gwasanaeth yn adran newydd 10(4A) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.**

**Argymhelliad 21:**

**Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i adran 14 o'r Bil er mwyn galluogi rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft i newid yr amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiad blynyddol gan ddarparwr gwasanaeth (i'w nodi yn adran newydd 10(4A) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 o ganlyniad i argymhelliad 20).**

Rwyf wedi ystyried argymhellion 20 a 21, ac wedi ymateb iddynt, gyda'i gilydd. Rwy'n gwrthod y ddau argymhelliad.

Byddai gosod amserlen ar gyfer cyhoeddi datganiadau blynyddol ar wyneb y Bil yn cyfyngu ar y rheoleiddiwr yn ei waith angenrheidiol i gytuno ar broses ar gyfer gweithio gyda darparwyr ar ôl cyflwyno i'w paratoi ar gyfer cyhoeddi. Bydd y broses hon yn llywio'r amserlen a nodir mewn rheoliadau. Mae pennu amserlen ar wyneb y Bil yn anghyson â'r dull a ddefnyddiwyd eisoes yn Neddf 2016 mewn perthynas â'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiad blynyddol, a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan y weithdrefn negyddol.

**Argymhelliad 22:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 19(1) o'r Bil i sicrhau bod y geiriad yn gyson â bwriad y polisi a nodir yn adran 19(2).**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd gwelliant yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod 2 i wneud y gwelliant hwn.

**Argymhelliad 23:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol bod paragraff 7 o Atodlen newydd A1 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (i'w mewnosod gan adran 20 o'r Bil) yn sefyll ar ei ben ei hun ac nad oes angen ailadrodd bwriad y polisi mewn rheoliadau i'w gwneud o dan baragraff 1 o Atodlen newydd A1.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Am y rhesymau a nodir yn ein hymateb ar 9 Gorffennaf, nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen y gwelliant hwn i'r Bil. Mae gallu byrddau iechyd i gynnig taliadau uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl yn dibynnu'n llwyr ar wneud y Rheoliadau – ni fydd byrddau iechyd yn gallu cynnig taliadau uniongyrchol heb i'r Rheoliadau fod ar waith ac felly mae'n rhaid i'r fframwaith statudol gynnwys y cyfyngiad a drafodir.

**Argymhelliad 24:**
**Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion ar yr holl wasanaethau a allai fod yn destun taliadau uniongyrchol gan ddefnyddio'r darpariaethau sydd i'w mewnosod yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 gan adran 24. Dylid darparu'r wybodaeth hon fan bellaf cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor.

Bydd y pŵer yn galluogi taliadau uniongyrchol ym maes gofal iechyd i dderbynwyr sydd ag ystod eang o gyflyrau a diagnosis. Ni fyddai'n briodol darparu rhestr gynhwysfawr o ble y gellid gwneud taliad uniongyrchol yn lle darparu gwasanaethau. Yn ogystal, byddai hynny'n dilyn y 'model meddygol' ac ni fyddai'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd i fod yn rhagnodol o ran y math o gyflwr neu anabledd. Fodd bynnag, byddwn yn hapus i ddarparu gwybodaeth ddangosol i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 25:**
**Dylai'r Gweinidog adolygu ehangder y darpariaethau yn adran 24 gan gynnwys a all y Bil ganiatáu i Weinidogion Cymru, rywbryd yn y dyfodol, wneud taliadau i bobl nad ydynt wedi'u hasesu fel rhai sydd ag angen iechyd sylfaenol. Ar ôl hyn dylai'r Gweinidog wneud datganiad i'r Senedd am ganlyniad yr adolygiad hwn fan bellaf cyn cychwyn trafodion Cyfnod 3.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Mae'r darpariaethau yn adran 24 wedi bod yn destun ystyriaeth ofalus yn ystod y prosesau drafftio a chraffu a dylid eu cadw fel y'u drafftiwyd i ganiatáu cyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer gofal iechyd parhaus.

**Argymhelliad 26:**
**Os mai bwriad y Gweinidog o hyd yw arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 10B(5) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 24 o'r Bil) yn unig ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol ar yr un pryd, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i adlewyrchu'r bwriad hwnnw (a dileu'r gallu iddo gael ei arfer mewn perthynas ag un Bwrdd Iechyd Lleol yn unig).**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn credu bod angen y gwelliant hwn i'r Bil. Mae'r Gweinidog eisoes wedi nodi wrth y Pwyllgor mai bwriad y llywodraeth yw arfer y pŵer ar gyfer pob bwrdd iechyd ar yr un pryd.

**Argymhelliad 27:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod ystyr 'person heb alluedd' fel y'i nodir yn adran newydd 10B(8)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 (i'w mewnosod gan adran 24(2) o'r Bil) yn cael ei ddisgrifio gan holl ddarpariaethau perthnasol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n pennu ei ystyr.**

Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn.

Fel y nodwyd yn yr ohebiaeth flaenorol gyda'r Pwyllgor, diffinio "galluedd meddyliol" drwy gyfeirio at Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gyffredinol yn hytrach na chyfeiriad mwy penodol at adran 2 yw'r arfer mwy cyffredin yn y llyfr statud. Yr un lluniad sy'n cael ei ddefnyddio yn adran 197(5) o Ddeddf 2014.

Yn ogystal, oherwydd bod y diffiniad yn adran 2 yn ddarostyngedig i ddarpariaeth ychwanegol yn adran 18(3) (y cyfeirir ati yn adran 2(6)), yn ein barn ni, mae'n fwy priodol cyfeirio at y diffiniad drwy gyfeirio at y Ddeddf gyfan.

**Argymhelliad 28:**
**Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod rheoliadau i'w gwneud o dan adran 10C(1) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (i'w mewnosod gan adran 24(2) o'r Bil) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drafft.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliant i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft i'r pŵer hwn i wneud rheoliadau.